## CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATGBLYGU CYFFREDINOL A GANIATEIR) 1995 (FEL Y'I DIWYGIWYD)

## CYFARWYDDYD A WNAED O DAN ERTHYGL 4 (1) (YN WEITHREDOL AR UNWAITH)

## STACEY HALL, STACEY ROAD, CAERDYDD CF24 1DR

**YN GYMAINT** â bod Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ("y Cyngor") fel yr awdurdod cynllunio priodol yn ôl ystyr Erthygl 4(6) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd, ('y Gorchymyn'), yn fodlon ei bod hi'n gyfleus na ddylid gwneud unrhyw waith datblygu o'r disgrifiad(au) a nodir yn yr Atodlen isod ar y tir a ddangosir ag ymyl coch ar y cynllun atodedig, a elwir yn hen, Stacey Hall, Stacey Road, Caerdydd CF24 1DR, oni bai y ceir caniatâd wrth wneud cais o dan Ran III Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd).

**A LLE** mae'r Cyngor yn ystyried y byddai datblygu'r disgrifiad(au) a nodir yn yr Atodlen isod yn rhagfarnus i gynllunio ei ardal yn briodol ac y byddai'n fygythiad i amwynderau ei ardal

**FELLY NAWR** mae'r Cyngor dywededig yn unol â'r pŵer a roddwyd iddynt gan Erthygl 4(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd, drwy hyn yn rhoi cyfarwyddyd na fydd y caniatâd a roddir gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwnnw yn berthnasol i ddatblygiad ar y tir hwnnw o'r disgrifiad(au) a nodir yn yr Atodlen isod.

**RHODDIR Y CYFARWYDDYD HWN** o dan erthygl 4(1) o'r Gorchymyn hwnnw a rhaid iddo aros mewn grym tan 24 Medi 2024 sef chwe mis o ddyddiad y cyfarwyddyd hwn) ac yna bydd yn dod i ben oni bai ei fod wedi'i gadarnhau gan yr awdurdod cynllunio lleol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â pharagraffau 1(8) a (9) o Atodlen 2A o'r Gorchymyn hwnnw cyn diwedd y cyfnod o chwe mis

**YR ATODLEN**

1. Unrhyw waith adeiladu sy'n cynnwys dymchwel adeilad sydd yn ddatblygiad sydd yn Nosbarth A Rhan 31 o Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 nad yw'n ddatblygiad mewn unrhyw Ddosbarth arall.

2. Paentio y tu allan i unrhyw adeilad neu adeilad gwaith sydd yn ddatblygiad sydd yn Nosbarth C o Ran 2 o Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 nad yw'n ddatblygiad mewn unrhyw Ddosbarth arall.

RHODDWYD DAN Sêl Gyffredin Cyngor Sir Dinas A Sir Caerdydd

Y ……25th………. diwrnod hwn o ……Mawrth…………… 2024

RHODDWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

57696

Sealed By: Cardiff Council
Sealed Time: 25/3/2024 | 13:10 GMT

Ym Mhresenoldeb

DocuSigned by:
……Richard Crane
7E4B02AD993E48F...

Llofnodwr Awdurdodedig




**CHIEF EXECUTIVE**

Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd,
CF10 4UW.

County Hall,
Atlantic Wharf,
Cardiff,
CF10 4UW.

© Crown copyright and database rights (2017).

Ordnance Survey 100023376

This copy is produced specifically to supply County Council information NO further copies may be made.

**CYNGOR SIR CAERDYDD**
**CARDIFF COUNTY COUNCIL**

CARDIFF
CAERDYDD

Stacey Hall
Stacey Road
Cardiff
CF24 1DR

1:1000 at A4

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995**

**CYFARWYDDYD A WNAED O DAN ERTHYGL 4 O ORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGU CYFFREDINOL A GANIATEIR) 1995 YN CYFYNGU AR HAWLIAU DATBLYGIAD A GANIATEIR MEWN PERTHYNAS Â STACEY HALL, STACEY ROAD, CAERDYDD CF24 1DR**

## DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS ROI'R CYFARWYDDYD

### Cyflwyniad

Cynigir y Cyfarwyddyd uchod ("cyfarwyddyd Erthygl 4") er mwyn cyfyngu ar Hawliau Datblygiad a Ganiateir hen dafarn Stacey Hall, Stacey Road, Caerdydd CF24 1DR ("yr adeilad").

**Disgrifiad byr o Neuadd Stacey** (gweler Atodiad 1 am Hanes a Disgrifiad Manwl)

Mae'r adeilad wedi'i leoli yn Ward Adamsdown ar Heol Stacey, gan gau'r olygfa hir i'r de-ddwyrain o Stryd Oakfield. Mae prif ran yr adeilad yn ddau lawr gydag atig i do llechi ar oleddf serth gyda theils crib coch a phentyrrau simnai cerrig. Mae cyntedd mynedfa deulawr wedi'i osod yn erbyn y wedd ochrol (gogledd-ddwyrain).

Mae'r brif wedd ogledd-orllewinol wedi'i ffurfio gan waith maen llanw a charreg pennwn wyneb morthwyl, gyda chyfoethogiad carreg nadd. Mae gan brif ran yr adeilad bâr o ffenestri bae carreg nadd i'r llawr gwaelod.
Mae gweddau ochr yn arddangos llai o ddiddordeb pensaernïol, sy'n cynnwys gorffeniad wedi'i rendro, gyda manylder brics i lin-gwrs, bondiau wedi'u mowldio a chorbelog, ac amgylchynau ffenestri.

Nid yw'r wedd gefn o ddiddordeb penodol, wedi'i rendro drwyddo draw a heb nodweddion pensaernïol nodedig na'r defnydd o ddeunyddiau o ansawdd uchel. Nid yw'n amlwg o olygfannau'r cyhoedd.

**Y sail y mae angen cyfarwyddyd Erthygl 4.**

Mae'r adeilad yn gwneud cyfraniad pwysig i'r strydlun yn Adamsdown, gan ychwanegu at yr ymdeimlad cryf o le o fewn cyffiniau Heol Stacey a Stryd Oakfield. Mae'r adeilad yn arddangos gwerth tystiolaethol, hanesyddol ac esthetig. Mae gwerth diwylliannol yn arbennig o gryf, fel y gwelir yn ei hanes hir ac amrywiol. Mae'r holl ffactorau hyn yn cyfrannu at arwyddocâd sylweddol yr adeilad.

O ystyried bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio'n fasnachol (neu wedi'i wneud yn flaenorol), nodir nad yw Hawliau Datblygiad a Ganiateir yn berthnasol ar gyfer unrhyw newidiadau i'r to, simneiau, ffenestri neu nodweddion eraill lle byddai hyn yn newid ymddangosiad yr adeilad yn sylweddol. Fodd bynnag, byddai dymchwel neu ailbeintio'r adeilad mewn modd ansensitif yn niweidio cynllunio'r ardal yn briodol, trwy fethu ag amddiffyn adeilad o bwysigrwydd arbennig yn y strydlun.

I'r perwyl hwn, penderfynwyd dileu Hawliau Datblygiad a Ganiateir i'r gwaith canlynol gael ei wneud i'r adeilad:

1. Unrhyw waith adeiladu sy'n cynnwys dymchwel adeilad sydd yn ddatblygiad sydd yn Nosbarth A Rhan 31 o Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 nad yw'n ddatblygiad mewn unrhyw Ddosbarth arall.

2. Paentio y tu allan i unrhyw adeilad neu adeilad gwaith sydd yn ddatblygiad sydd yn Nosbarth C o Ran 2 o Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 nad yw'n ddatblygiad mewn unrhyw Ddosbarth arall.

## Atodiad 1
### Hanes

Mae gan Neuadd Stacey hanes cymdeithasol hir a chyfoethog.

Mae'r adeilad yn ymddangos yn gyntaf fel *'Neuadd Gyhoeddus y Rhath'* yn South Wales Daily News on 2 Ionawr 1875, pan gyhoeddwyd ymgorffori *Cwmni Neuadd Gyhoeddus y Rhath at ddiben darparu neuadd gyhoeddus ym mhlwyf y Rhath, at bob diben cyhoeddus neu arall a gymeradwyir gan y cyfarwyddwyr, ynghyd ag Ystafell Ddarllen ac unrhyw ychwanegiadau eraill a geir yn hwylus fel darlithoedd, cyngherddau neu gynulliadau cyhoeddus o unrhyw ddisgrifiad*. Cynigiwyd codi neuadd *ddigon mawr i ddarparu ar gyfer 500 o bobl, ynghyd ag Ystafell Ddarllen eang a chyfleus a'r ystafelloedd a'r swyddfeydd angenrheidiol sy'n addas ar gyfer preswylfa'r neuadd-geidwad.* Amcangyfrifwyd bod cost gyfan yr adeilad a'i ffitiadau *ddim yn fwy na £2,700*.

Byddai dwy fil o gyfranddaliadau yn cael eu dosbarthu am £2 yr un. Ar frig y rhestr o Ymddiriedolwyr oedd John Cory (1828 – 1910), perchennog llongau, allforiwr glo a dyngarwr cyfoethog Caerdydd. Roedd y pensaer hefyd yn ddyn o fri mawr yn y ddinas: Mr Thomas Waring M.I.C.E. (1825-1891), a oedd i raddau amrywiol: yn ddylunydd adeiladau domestig di-ri yn y ddinas, Peiriannydd Preswyl ar Waith Carthffosiaeth Caerdydd, Syrfëwr i Fyrddau Iechyd Treganna a'r Rhath, a Phrif Beiriannydd Awdurdod Gwledig Caerdydd (gw. 1891 Institute of Civil Engineers: Obituaries). Gwyddys iddo weithio ochr yn ochr ag R.G. Thomas i ddylunio Waliau, Porth a Chapeli Angladdol Mynwent Cathays (1857-9); ochr yn ochr ag W.D. Blessey i ddylunio Theatr Tywysog Cymru (1878) a'i hadeiladau cysylltiedig agos (81, 83-84 Heol Eglwys Fair); ac ochr yn ochr â JP Jones i ddylunio Arcêd y Stryd Fawr (1885).

Erbyn 1879, nid adeiladwyd y neuadd gyhoeddus arfaethedig o hyd (The Cardiff Times, 4 Hydref 1879), ac nid tan ddiwedd 1882 y dechreuodd y papurau newydd gofnodi digwyddiadau yn yr adeilad pan gwblhawyd. Yn nodedig yn eu plith roedd:

1886: Cyngerdd codi arian ar gyfer organ newydd yn eglwys St Margaret.

1887: Cymdeithas Ryddfrydol Caerdydd yn cynnal sgwrs o'r enw 'Ireland: Past, Present and Future'.

1888: Sefydliad Llenyddol a Cherddorol Iddewig Caerdydd yn cynnal cyfres o bartïon hwyrol.

1888: Cymdeithas Ryddfrydol Caerdydd: 'Coercion versus Conciliation' neu 'England's duty towards Ireland'.

1888: Trafododd cyfarfod o Bwyllgor Llyfrgell ac Amgueddfa Rydd Caerdydd arbrofi gydag ystafell ddarllen gangen yn Neuadd Gyhoeddus y Rhath (er nad oedd hyn i gael ei gwireddu am ddeng mlynedd arall).

Ym 1889, hysbysebwyd Neuadd Gyhoeddus y Rhath i gael ei Gosod neu ei Gwerthu, a ddisgrifiwyd yn *fawr a chyfleus, yn cynnwys neuadd fawr, sy'n gallu cynnal 450 o bobl, neuadd lai, i 250 o bobl, swyddfeydd, ystafelloedd gofalwr, a phob cyfleuster, gyda ffitiadau cyflawn, seddi ac ati* (South Wales Daily News, 6 Awst 1889)

Y flwyddyn ganlynol, derbyniodd cyfarfod arbennig o'r Cyngor Tref gais am Drwydded Cerddoriaeth a Dawnsio ar gyfer y safle (South Wales Daily News, 21 Hydref 1890).

Cafodd yr adeilad ei roi ar werth unwaith eto yn gynnar ym 1891, a hysbysebwyd fel:

> *Lleolir ar Heol Stacey, Y Rhath, ac yn cynnwys AR Y LLAWR GWAELOD - Neuadd Lai 35 x 31, ystafell ymlacio, tair ystafell ofalwr, a choridor a chyntedd eang. AR Y LLAWR CYNTAF - Neuadd Fawr 61 x 31, gyda llwyfan ar y diwedd, ystafell ymlacio, cyntedd, blwch tocynnau, tai bach a thoiled. Mae'r neuadd*

*uchod yn meddiannu darn o dir sydd â ffrynt i Heol Stacey o 75 troedfedd a dyfnder o 120 troedfedd, gyda mynedfeydd ochr a chefn, ac mae gan y neuadd fawr, ar wahân i'r cyntedd mynedfa, grisiau yn y cefn i hwyluso allanfa. Wrth ochr y neuadd ei hun, mae adeilad pren ar yr ochr ddwyreiniol, y gellir ei ddefnyddio fel ystafell storio ar gyfer cadeiriau, ac ati. Mae'r adeilad wedi'i godi'n sylweddol, mae'r holl goridorau a dynesfeydd yn fawr, ac mae cyflenwad dŵr a nwy drwyddo draw. Mae'r safle wedi ei ddal o dan les am gyfnod o 99 mlynedd o 1 Medi 1882, am rent tir blynyddol o £13.13s*.' (South Wales Daily News, 25 Chwefror 1891).

Ar 16 Mai 1891, cyhoeddwyd bod: *Mr Eugene Sully, ysgrifennydd y gymdeithas hamdden Genedlaethol, wedi cymryd Neuadd Gyhoeddus y Rhath am gyfnod o flynyddoedd at ddibenion campfa'* (Y Western Mail) Yn nodedig, ym mis Gorffennaf yr un flwyddyn, roedd Liverpool School of Cookery yn cyflwyno darlithoedd ar weithredu*'r offer coginio a gwresogi nwy mwyaf modern* (South Wales Daily News, 11 Gorffennaf 1891); at ei gilydd, arddangosiad clir o'r dibenion amrywiol yr oedd y ddau brif le yn yr adeilad yn cael eu defnyddio ar un adeg.

Ym 1894, cynigiwyd *trosi Neuadd y Rhath yn gapel*, unwaith eto i ddyluniadau T. Waring a Mab (Cyf. Archifau Morgannwg BC/S/1/9763). Cyhoeddwyd datblygiadau dramatig o'r fath gan yr Evening Express ar 11 Hydref yr un flwyddyn:

*EGLWYS NEWYDD YN Y RHATH.*

*Gosodwyd cerrig coffa neuadd a festri newydd o Annibynwyr y Rhath brynhawn Mercher gan Mr D. A. Thomas, M.P. a boneddigion eraill. Yn ystod y 14 mlynedd diwethaf mae'r aelodau a'r gynulleidfa wedi cyfarfod i addoli mewn adeiledd haearn dros dro ar Heol Casnewydd, ond gyda'r bwriad o ddarparu safle eglwys digonol a pharhaol, prynwyd Neuadd Gyhoeddus y Rhath ar Heol Stacey am £15,000, £800 yn llai na'r gost i'w hadeiladu. Rhan gyntaf y cynllun yw codi adeilad yng nghefn Neuadd Gyhoeddus y Rhath, y gellir ei defnyddio at ddibenion addoliad cyhoeddus ac ysgolion Sul; a meini coffa hyn a osodwyd ddydd Mercher. Mae'r contract ar gyfer y rhan hon yn cyfateb i bron i £800; a bydd yr adeilad yn barod i'w feddiannu ym mis Rhagfyr eleni, pan fydd yr eglwys haearn dros dro yn mynd allan o feddiant y deiliaid presennol. Mae'r penseiri, y Meistri T. Waring a'i Fab, wedi paratoi cynlluniau lle bydd waliau ochr a chefn Neuadd Gyhoeddus y Rhath yn cael eu cadw, ond bydd y ffrynt, sy'n wynebu Stryd Oakfield, yn hollol newydd, ac felly'n darparu lle eistedd i 626 o addolwyr, y gellir eu cynyddu'n hawdd i 809 drwy ychwanegu orielau ochr. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gwariant ar gyfer addasiadau ac ychwanegiadau yw £2,300, sydd wedi cael £720 wedi'i danysgrifio tuag ato, ac mae'r adeilad haearn wedi'i werthu am £250. Gosodwyd y garreg gyntaf gan Mr D. A. Thomas, M.P., a fynegodd hoffter arbennig tuag at gorff yr Annibynwyr; yr ail gan y Cynghorydd E. W. Shackell, sydd wedi tanysgrifio £100 i'r gronfa; y drydedd gan yr hybarch Mr John Hailes, a gyfrannodd £50; a'r drydedd gan Mr T. W. David, fel cynrychiolydd Annibynwyr Caerdydd. Ymhlith eraill a gymerodd ran yn yr achos diddorol oedd y Cynghorydd Munn, un o sylfaenwyr yr eglwys yn y Rhath, a'i rodd i'r gronfa adeiladu yw £50; y Parch E. Nicholson-Jones, gweinidog; Mr Roger Price, Mr A. H. N. Reddaway, trysorydd cyffredinol; Mr T. J. Williams, ysgrifennydd; Mr Styles, yr adeiladwr; Yr Henadur Daniel Lewis, un o'r Annibynwyr hynaf yn Ne Cymru; a'r Parch. J. Morris. Cyflwynwyd trywel arian i bob dyn a osododd garreg goffa.*

Fodd bynnag, mae'n ymddangos na chafodd adeilad presennol y neuadd erioed ei ymgorffori yn yr eglwys newydd, ffaith y tystiwyd iddo gan fap OS 1901 (a arolygwyd 1898-90), sy'n dangos adeilad eglwys bach a adeiladwyd yng nghefn (de-ddwyrain) y safle. O'r dystiolaeth hon, gellir tybio na chafodd y cynllun erioed ei

wireddu y tu hwnt i'r *adeilad yng nghefn Neuadd Gyhoeddus y Rhath, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer addoliad cyhoeddus ac at ddibenion ysgol Sul.*

Ym 1895, cynigiwyd *Cyfarwyddyd yn y Celfyddydau Domestig* yn Neuadd Gyhoeddus y Rhath gan Ysgol Dechnegol y Merched (South Wales Daily News, 8 Ionawr 1895) a dwy flynedd yn ddiweddarach, cafodd yr adeilad ei *ailaddurno, bellach ar osod am bob math o adloniant, dosbarthiadau a gwasanaethau dydd Sul* (South Wales Echo, 29 Medi 1897).

Daeth y defnydd sylweddol nesaf o'r safle ym 1898, pan gyhoeddwyd *yr agorwyd ystafell ddarllen newydd ar gyfer ardal y Rhath yng Nghaerdydd yn anffurfiol* yn y Neuadd dros dro, nes bod y llyfrgell gangen yn barod i'w defnyddio yn Four Elms, Newport Road (South Wales Echo, 14 Tachwedd 1898). Cwblhawyd Llyfrgell Gangen y Rhath ym 1901.

Ym 1900, cynigiwyd grisiau newydd ar gyfer yr adeilad, a gynlluniwyd gan y pensaer L.R. Harries (Archif Morgannwg: BC/S/1/14249). Er nad yw'n glir ar hyn o bryd, efallai mai'r rhain oedd y grisiau allanol a ddangosir yn y mapiau OS manwl o 1941 ymlaen - ac sy'n dal i fod yn bresennol heddiw (gweler Glamorgan Sheet XLIII.11). Mae'r gwaith yn sicr yn dangos bod y neuadd yn parhau â'i defnydd llorweddol rhanedig ac amrywiol.

Gwelodd Deddf Sinematograff 1909 y trwyddedau sinema cyntaf a chychwynnodd hwb mewn adeiladu adeiladau pwrpasol. Mae'n ymddangos bod y 'Theatr Sinema Drydan' gyntaf yng Nghymru wedi ei hagor ar Heol y Frenhines, Caerdydd ym mis Medi 1909 (Evening Express, 21 Medi 1909) ac, ym 1911, cyflwynwyd cynlluniau ar gyfer *'Blwch sinema'* yn Neuadd Gyhoeddus y Rhath, i ddyluniadau'r pensaer J.T. Jenkins (Archif Morgannwg BC/S/1/17984).

Ym 1912, rhestrwyd y lleoliad yng Nghyfeirlyfr Caerdydd fel *Stacey Road Kinema*; flwyddyn yn ddiweddarach roedd yn *Theatr Drydan y Rhath*. Fodd bynnag, roedd bywyd yr adeilad fel sinema yn un byr: cofnodwyd ei ddangosiad terfynol ym 1915 (Cinematreasures.org).

Yn yr un flwyddyn (1915), cafodd yr adeilad ei werthu unwaith eto fel: *Neuadd Gyhoeddus y Rhath, ynghyd â'r Capel yn y cefn. Mae gan y neuadd ddau lawr gyda nifer ardderchog o leoedd, ac mae'r llawr uchaf wedi ei ddefnyddio'n ddiweddar fel sinema...* Dychwelwyd yr adeilad i ddefnydd amlswyddogaethol, gan gynnwys: cyfres o adloniant a gynhaliwyd ar gyfer milwyr yn Neuadd Stacey - pencadlys yr R.D.C. yng Nghaerdydd (1918), perfformiad o *'Asgre Lan'* gan aelodau Cymdeithas Ddramatig Gymraeg Gwaelodygarth (1920) a pherfformiad o *'Arms and the Man'* a roddwyd gan Gymdeithas Ddramatig Coleg Prifysgol Caerdydd er budd cofeb rhyfel y coleg (1921) (Cymdeithas Hanes y Rhath). Yn ystod y cyfnod hwn, cynigiwyd newidiadau pellach i'r neuadd (1919) gan *'Cymdeithas Lles Cymdeithasol Neuadd Undod'* (Archifau Morgannwg: BC/S/1/20042). Ychydig a wyddys am y sefydliad hwn ar hyn o bryd, er eu bod yn amlwg yn ddyngarol ei natur.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, defnyddiwyd yr adeilad fel depo barics milwrol (Byddin Cartref) (1940-45) (Cymdeithas Hanes y Rhath).

Yn dilyn y rhyfel (1947), cyhoeddwyd tenantiaeth Neuadd Ddawns Caerdydd *'wedi'i benodi'n dda'*, gyda'r adeilad bellach yn cynnwys *'Llawr masarn perffaith, 60 troedfedd x 30 troedfedd'*. Yn ddiweddarach yn y 1940au roedd yn *'Star Ballroom'*, sy'n cynnwys llawr dawnsio sbring mawr i'r llawr uchaf (gyda drychau a seddi o amgylch y perimedr). Cynhaliwyd dawnsfeydd *'Roc a Rôl'* yno o 1956 ymlaen, gyda dosbarth dawnsio Neuadd i Ddechreuwyr hefyd yn cael ei gynnal bob nos Wener (Cymdeithas Hanes y Rhath).

Fe wnaeth dyfodiad y teledu ysgogi'r BBC i brynu safle deg erw yn Llandaf (1952), i ddarparu ar gyfer ei holl weithrediadau yn y ddinas. Fodd bynnag, gohiriwyd adeiladu'r pencadlys newydd, oherwydd cost y prosiect. O

ganlyniad, cymerodd y sefydliad Gapel Methodistaidd Broadway yn y Rhath (1955) a Neuadd Gyhoeddus y Rhath (1959), i ddarparu ar gyfer eu hegin-wasanaeth teledu newydd. Daeth *'Stacey Road Studios'* yn bencadlys newydd ar gyfer gwasanaethau darlledu newyddion y BBC (BBC, 'From Cardiff, this is BBC Wales', 2009).

Mae'n ymddangos i'r rhaglen newyddion teledu Gymraeg gyntaf gael ei darlledu o'r adeilad (*'Heddiw'*, 1961-1982). Aeth ymlaen i ymdrin â straeon newyddion Cymraeg sylweddol, gan gynnwys Trychineb Aberfan (Hydref 1966).

Ym 1968, meddiannodd deugain o brotestwyr o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg oedd yn meddiannu stiwdios newyddion Heol Stacey; rhan o'u cynnwrf gweithredu uniongyrchol cynharaf, a gynlluniwyd i wella statws y Gymraeg (South Wales Echo, 24 Tachwedd 2015).

Daeth y BBC i ben â darlledu o'r neuadd ym 1974, er i Weithrediadau'r BBC aros yn yr adeilad tan 1990 (Cymdeithas Hanes y Rhath). Recordiwyd *'BBC Studio Sessions'* niferus yno yn ystod y 1970au a'r 1980au, gan gynnwys y bandiau Cymraeg *'Zipper'* (1979) a *'Graffia'* (1980).

Yna cafodd yr adeilad ei feddiannu gan Ysgol Gerdd Yamaha tan 1999, pan wnaed cais am newid defnydd: o *'Ysgol Gerdd'* i *'Llogi a Storio Propiau'* (99/00159/R).

Heddiw, mae'r adeilad yn wag, wedi'i hysbysebu ar hyn o bryd fel:

> *Ddim yn adeilad rhestredig a heb ei leoli mewn ardal gadwraeth ddynodedig... gellir dymchwel yr adeilad presennol er mwyn caniatáu adeiladu fflatiau pwrpasol*. (Hafren Properties)

## <u>**Disgrifiad Manwl**</u>

Mae'r adeilad yn hen neuadd gyhoeddus sydd wedi'i lleoli'n amlwg, sy'n cau'r olygfa hir i'r de-ddwyrain ar hyd Stryd Oakfield.

Prif ran yr adeilad yw dau lawr gydag atig i do ar oleddf serth, wedi'i osod i gynllun petryal. Mae cyntedd mynedfa deulawr wedi'i osod yn erbyn y wedd ochrol (gogledd-ddwyrain).

Mae'r brif wedd ogledd-orllewinol wedi'i ffurfio gan waith maen llanw a charreg penwn wyneb morthwyl, gyda chyfoethogiad carreg nadd. Mae gan brif ran yr adeilad bâr o ffenestri bae carreg nadd i'r llawr gwaelod. Mae cynllun bae LHS yn orthogonaidd, gyda ffenestr wedi'i fowldio â chwfl a phen-segmentaidd. Mae cynllun bae RHS yn wynebog, gyda ffenestri bwa dau ganolbwynt, wedi'u haddurno â grotesgau addurnedig. Mae'r ddau fae wedi'u huno gyda tho gan lin-gwrs estynedig, sydd â manylder paneli mân ar ei soffit ac yn dychwelyd i ochrau'r adeilad. Mae gan y llawr cyntaf ddau fanylyn braced carreg wedi'u herydu'n drwm, gyda chymorth y llin-gwrs. Uchod, mae trefniant tri bae, sy'n cynnwys ffenestri bwa dau ganolbwynt gyda mowldio cwfl. Mae'r ffenestr ganolog yn ddall. Uwchlaw, mae pediment talcen gyda sylfaen llin-gwrs, parapet cornis gyda rhyngdyllau sgwâr (sy'n dychwelyd i weddau ochr) a ffenestr *'Serlian'* deiran i'r tympanwm (gyda fentiau atig dellt). Mae gan y cyntedd ochr ddrws tal i gerddwyr gyda bwa dau ganolbwynt a mowld cwfl sgwâr drosodd, gydag addurniadau ffolio i'r sbandrelau mewnlenwi. Uwchben y mowldio llinyn uno, mae ffenestr pen sgwâr â mowld cwfl sgwâr. Mae'r to croes wedi'i guddio gan barapet gwastad gyda rhyngdyllau bwaog. Mae ffenestri wedi'u ffurfio'n rhannol mewn pren ac yn dangos rhywfaint o dystiolaeth am fanylion gwreiddiol i'w croeslathau a'u pyst wedi'u mowldio'n drwm. Mae'n ymddangos bod goleuadau is yn fewnosodiadau ffrâm metel

diweddarach. Mae’r ffenestr i’r cyntedd yn uPVC modern. Mae drysau yn fewnosodiad diweddarach, sy'n cynnwys paneli plaen, sgwâr-a-suddo a ffan-olau bwrdd.

Mae gweddau ochr yn arddangos llai o ddiddordeb pensaernïol, sy'n cynnwys gorffeniad wedi’i rendro, gyda manylder brics i lin-gwrs, bondiau wedi'u mowldio a chorbelog, ac amgylchynau ffenestri.

Mae’n do llechi, gyda theils crib coch a phentyrrau simnai cerrig, sy'n terfynu'r cilfachau parapet.

Nid yw'r wedd gefn o ddiddordeb penodol, wedi’i rendro drwyddo draw a heb nodweddion pensaernïol nodedig na'r defnydd o ddeunyddiau o ansawdd uchel. Nid yw'n amlwg o olygfannau’r cyhoedd.

Er bod angen gwaith cynnal a chadw, mae'r adeilad wedi'i gadw'n gymharol dda. Mae'n ymddangos ei fod yn parhau i fod yn sylweddol ar ei ffurf wreiddiol.